Datblygu Recriwtiaid Gwell

Llwybrau Dysgu 14–19

CYMHWYSTER
BAGLORIAETH CYMRU | WELSH BACCALAUREATE
QUALIFICATION

WJEC
CBAC

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.bagloriaethcymru.org.uk

Cymhwyster Bagloriaeth Cymru – Datblygu Gwell Recriwtiaid

Os ydych chi'n cyflogi pobl ifanc, byddwch yn gweld buddiannau penodol gyda Chymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Mae'r cymhwsyter yn cyfuno datblygiad personol â chymwsyterau fel Safon Uwch, TGAU, NVQ a'r cymhwyster newydd Prif Ddysgu er mwyn creu un dyfarniad ehangach sy'n datblygu cymwyseddau seiliedig ar waith ac sy'n ennyn hyder. Mae'n annog y myfyrwyr i feddwl mewn dull beirniadol ac mae'n cyflwyno Sgiliau Allweddol fel gweithio mewn tîm, datrys problemau, TGCh, cyfathrebu, mathemateg a defnyddio Cymraeg a Saesneg mewn sefyllfaoedd busnes.

Mae myfyrwyr Bagloriaeth Cymru yn cael profiad o'r byd go iawn, ac yn cael dysgu sut i ddefnyddio eu sgiliau mewn sefyllfaoedd ymarferol. Maent yn mynd ar leoliadau ac maent yn gweithio o'u pen a'u pastwn eu hunain, yn union fel y dylai cyflogai ei wneud.

Felly, cofiwch edrych am Gymhwyster Bagloriaeth Cymru ar CV ac ymateb yn gadarnhaol os yw ysgolion neu golegau yn eich ardal chi yn cysylltu ac yn gofyn ichi am brofiad gwaith. Gyda'n gilydd, gallwn ni ddatblygu gwell recriwtiaid.

"O'r diwedd, mae Bagloriaeth Cymru i'w weld yn cynnig y cymysgedd cywir y mae cyflogwyr wedi bod ar ei ôl ers tro – 'cyflogai sy'n barod ar gyfer y byd gwaith' gyda'r wybodaeth, y sgiliau a'r agwedd sydd eu hangen i wneud gwahaniaeth yn syth ar ôl dechrau yn y gweithle."

Roger Evans, Cyfarwyddwr y Gwaith, Cwmni INA Bearings, Schaeffler UK

Mae Bagloriaeth Cymru ar gael ledled Cymru.
Ewch i www.bagloriaethcymru.org.uk i ddarganfod mwy neu ffoniwch Cyd-bwyllgor Addysg Cymru ar 029 2026 5010.